FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION WEDI'U CADARNHAU

o'r ail gyfarfod ar hugain a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Wrecsam ar 8 Medi 2006

46/06 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Yn bresennol:

CADEIRYDD
Ieuan Lewis

YSGRIFENNYDD GWEITHREDOL
Katie Birks

AELODAU
Mike Crawshaw
Sue Gittins
John Marchant
Mavis McBride
Clive Menzies
Gerald Moss
Margaret Murphy
Gwynfor Jones
Karl Prakel
Shelagh Roberts
Edward Wardle

UNIGOLION NAD YDYNT YN AELODAU
Martin Howorth
Paul Mitchell (CCGC)
Dave Smith (Ceidwad Mynediad)
John Pugh

Ymddiheuriadau:
Tim Rosselli, John Cooper-Poole, Mabyn Pickering, Alun Price, Tim Stevens

47/06 Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 7 Gorffennaf 2006

(39/05) Ymweliad ag Ystad Wynnstay
Anfonwyd llythyr o ddiolch.

(26/06) Ceisiadau cynllunio
Dim ymateb gan y Fforwm.

(27/06) Gorchmynion Addasiadau i'r Map Swyddogol
Dim ymateb gan y Fforwm.

(36/06) Adroddiad gan Geidwaid Mynediad / Eglurhad ynghylch yswiriant i bobl ar orchmynion cymunedol
Datganodd Edward Wardle bod yswiriant ar gyfer pobl sy'n cwblhau gorchmynion cymunedol yn cael ei gydlynu a'i gwmpasu'n genedlaethol gan y gwasanaeth prawf cenedlaethol.
Dymunai Clive Menzies a Sue Gittins gael sicrwydd ychwanegol ynghylch y mater hwn.
CAM GWEITHREDU: Ysgrifennydd i geisio eglurhad pellach.

(38/06) Materion cyllidebol
Roedd y Fforwm yn anfodlon ac yn siomedig ag ymateb y Prif Weithredwr, Arweinydd y Cyngor a'r Cynghorydd Mark Pritchard.
Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cysylltu â'r Prif Weithredwr i aildrefnu cyfarfod sy'n gyfleus iddi hi.
CAM GWEITHREDU: Ysgrifennydd i anfon llythyr at y Prif Weithredwr.

(39/06) Hyfforddiant i aelodau
Ymatebodd FfMLl Sir y Fflint i ymholiad yn gofyn pwy fyddai'n hyfforddi aelodau newydd y FfMLl a pha mor hir fyddai'n ei gymryd.
Mynegodd Clive Menzies y gallai jargon y Fforwm fod yn ormod i aelodau newydd a rhagwelodd gyfle am hanner diwrnod o hyfforddiant a fyddai'n debygol o gynnwys yr adran Hawliau Tramwy. Awgrymodd Karl Prakel y dylid creu 'rhestr o dermau' i aelodau newydd/unigolion â diddordeb.
Awgrymodd Ieuan y dylid creu 'rhestr o dermau' yn gyntaf ac yna hyfforddiant i ddilyn os nad oedd y rhestr termau yn cyflawni'r rôl.
Honnodd John Marchant y byddai'r adran 'Cwestiynau a Ofynnir yn Aml' ar wefan Sefydliad Swyddogion Hawliau Tramwy yn ateb llawer o'r ymholiadau ynghylch jargon.
CAM GWEITHREDU: HT i gynhyrchu 'Rhestr o Dermau'.

(40/06) Cydbwysedd y Fforwm
Yr Ysgrifennydd i gysylltu â Phennaeth Cynhwysiad Pobl Ifanc y Cyngor i drefnu cyfarfodydd â phobl ifanc yn y dyfodol.
CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i gysylltu eto.

(43/06) Unrhyw faterion eraill
Dim ymateb i'r ymgynghoriad am gau lonydd.

48/06 Adroddiad y Cadeirydd
Roedd y Cadeirydd wedi cael gwahoddiad i gyfarfod FfMLl cenedlaethol yn Llanfair ym Muallt. Ni all y Cadeirydd fod yn bresennol, felly bydd Clive Menzies yn mynd yn ei le. Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Fforwm roi gwybod i Clive os oedd ganddynt faterion yr hoffent iddynt eu trafod yn y cyfarfod hwn.

49/06 Adroddiad yr Ysgrifennydd
Dim adroddiad.

50/06 Y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
Dywedodd Martin Howorth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy bod 32 o ymatebion allan o 200 o holiaduron wedi'u derbyn, a olygai bod rhai o'r blaenoriaethau wedi'u newid.
Diolchodd y Fforwm i Martin am ei waith gyda'r CGHT.
Amlygodd Sue Gittins a'r Cadeirydd bwysigrwydd y cyfarfod gyda Phrif Weithredwr CBSW i sôn am adnoddau ar gyfer casgliadau'r CGHT.
Mynegodd y Fforwm bryderon am y gyllideb ar gyfer gwaith gwella.
Mynegodd Gerald Moss bryder am gywirdeb ac adnoddau ar gyfer y Map Swyddogol. Amlygodd Clive Menzies bod cynnal a chadw'r Map Swyddogol yn ddyletswydd statudol.
Datganodd Martin Howorth ei fod yn cyfarfod â'r Tîm Archwilio. Awgrymodd Martin y dylid cael cyfarfod is-grŵp FfMLl a bydd yn gwahodd pob aelod iddo.

Ar nodyn cadarnhaol, dywedodd Martin mai dyma'r tro cyntaf i HT gael Cynllun Strategol 10 mlynedd.

Martin Howorth i adrodd yn ôl am y Cyfarfod Archwilio yng nghyfarfod nesaf y FfMLl.

51/06 Adroddiad gan Geidwaid Mynediad

Dywedodd Dave Smith bod y tîm yn gweithio ar raglen ddigwyddiadau 2007 ar hyn o bryd.

Mae Alison wedi parhau i gael llwyddiant o ran y mater cnydio ac mae'r rhan fwyaf o fynediad wedi'i adfer. Mae dau rybudd wedi'u dosbarthu am fethu â chydymffurfio. Mae datblygiad y llwybr troed cymunedol ym Mrymbo yn parhau ar y cyd â Groundwork. Mae gwaith gyda Grŵp Gweithredu Lleol Cadburys Y Waun yn parhau.

Aeth Sion i gyfarfod gyda Chymdeithas y Cerddwyr ar 4ydd Medi. Parhau â gwaith i arwyddo llwybrau.

Ni adroddodd Dave unrhyw broblemau mawr ar diroedd mynediad ac mae'r cyfresi cerdded wedi bod yn hynod lwyddiannus. Cafodd dau o bobl eu harestio am ddefnyddio beiciau modur yn anghyfreithlon ar fynydd Rhiwabon ar ddechrau Mai.

Amlygodd Shelagh Roberts y gallai'r tywydd fod wedi bod yn gyfrifol am dirfeddianwyr yn methu â chydymffurfio â rhybuddion i dorri cnydau hefyd.

52/06 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Daeth Paul Mitchell, Swyddog Cefn Gwlad Rhanbarthol i'r cyfarfod yn lle Alun Price. Mae tir mynediad Wrecsam wedi bod yn dawel. Un ymholiad ynghylch cau oherwydd perygl tân mawr. Gwnaeth tirfeddianwyr yr ymholiad ar ran tenant sy'n saethu. Yn y pendraw penderfynwyd peidio â chau'r tir gan fod y mynegai tân ar fin gostwng ac nid oedd cau'r tir yn ddichonadwy. Cytunodd HT CBSW gynnal goruchwyliaeth tân a dangos sut y gellir rheoli cau tir 'allan' fel opsiwn.

Nid oes unrhyw astudiaethau yn dangos cynnydd mewn defnydd o dir mynediad agored ledled Cymru ar hyn o bryd.

53/06 Parcio mewn cilfannau

Adroddodd Mike Crawshaw bod cerddwyr yn parcio mewn mannau pasio lleol ac yn achosi problemau.

Honnodd Gerald Moss bod ardal Glynceiriog yn cael ei hyrwyddo fwyfwy ond nid oes digon o leoedd i barcio - mae angen i ni uno i ystyried y mater hwn. Mae cludiant cyhoeddus hefyd yn annigonol.

Soniodd John Marchant fod cynllun cludiant yn cael ei ddatblygu ac mai Colin Simpson oedd yr unigolyn gorau i gysylltu ag o.

CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i gysylltu â Colin Simpson ynglŷn â pharcio mewn cilfannau a chyfleusterau parcio annigonol yn Nyffryn Ceiriog sy'n cael ei hyrwyddo fwyfwy fel lleoliad i dwristiaid.

54/06 Cŵn yng nghefn gwlad

Caiff y mater hwn hefyd ei drafod yn y cyfarfod FfMLl cenedlaethol y bydd Clive Menzies yn mynd iddo yn Llanfair ym Muallt.

Datganodd Gwynfor Jones y gall cŵn ar dennyn hefyd fod yn broblem a soniodd am achosion o ymosodiadau diweddar lle bu gwartheg sugno yn ymosodol tuag at unigolion sy'n arwain cŵn.

Soniodd am achos ym Mrynbuga lle mae tirfeddiannwr wedi gweld 3 ymosodiad ar bobl ac mae'r HSE wedi gofyn iddo beidio â chadw gwartheg. Mae ffensio tir yn opsiwn bosibl.

Dangosodd Dave Smith o'r Adran Hawliau Tramwy rai arwyddion sydd ar gael i'w defnyddio ar giatiau/camfeydd ynglŷn â chadw cŵn dan reolaeth agos mewn ardaloedd penodol.
Awgrymodd Sue Gittins y dylid rhyddhau datganiad i'r wasg y gwanwyn nesaf i atgoffa'r cyhoedd o'u cyfrifoldebau fel perchnogion cŵn yng nghefn gwlad.
Cytunodd y Fforwm y byddai'n well i Geidwaid Mynediad ddosbarthu'r arwyddion.

55/06 Prosiect Mynydd Rhiwabon

Cyflwynodd Dave Smith fater a ddaeth i'w sylw'n ddiweddar am y posibilrwydd o greu pyllau ar fynydd Rhiwabon.
Ni theimlai'r Fforwm bod y prosiect hwn yn gysylltiedig â mynediad gan awgrymu efallai y byddai gan CCGC ddiddordeb yn y prosiect cadwraeth.
Datganodd Shelagh Roberts bod nifer o'r nentydd yn y mynydd yn bwydo cyflenwadau dŵr ffermydd felly rhaid ystyried unrhyw newidiadau/cynlluniau yn gysylltiedig â hyn yn ddifrifol iawn.

56/06 Unrhyw fater arall

- Gohebiaeth Cynllunio Strategol Chwaraeon a Hamdden Dŵr yng Nghymru gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ynglŷn â chyfarfodydd budd-ddeiliaid yn Hydref / Tachwedd 2006.
  CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar ran y Fforwm a chofrestru diddordeb y Fforwm mewn mynychu eu gweithdai i fudd-ddeiliaid.

- Gwariant gyda John Marchant.
  Mae ansicrwydd o hyd ynghylch p'un a ddylai aelodau'r Fforwm atodi derbynebau TAW wrth hawlio costau teithio.
  CAM GWEITHREDU: John Marchant i gael eglurhad ar gyfer cyfarfod nesaf y FfMLl.

57/06 Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf.

Awgrymodd Gwynfor Jones y dylid gwahodd cynrychiolydd o'r Arolwg Ordnans i'r cyfarfod nesaf.
CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i wahodd cynrychiolydd o'r Arolwg Ordnans i gyfarfod nesaf y FfMLl.

58/06 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

Ystafell Bwyllgor 3, Neuadd y Dref ddydd Gwener 10 Tachwedd am 1.30pm